# PWYLLGOR SAFONAU

Dydd Llun, 14 Rhagfyr 2020

**YN BRESENNOL:** M.A. Morgan (Cadeirydd)

**Aelodau Annibynnol:**
M. Dodd, D. Evans, J. James ac A. Williams,

**Aelod Cymunedol:**
Y Cynghorydd Tref P. Rogers,

**Y Cynghorwyr:**
S.J.G. Gilasbey a G.B. Thomas

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
J. Corner, Swyddog Technegol
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 2.00 yp - 2.35 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| J. Gilasbey | 5 a 6 – Cais am Ollyngiadau gan y Cynghorydd J. Gilasbey | Hi yw'r ymgeisydd. |

## 3. LOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFODYDD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 14EG MEDI, 2020.

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Medi 2020, gan eu bod yn gywir.**

## 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2019/20

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'w Adroddiad Blynyddol 2019/20 ynghylch y gwaith oedd wedi ei gyflawni yn ystod y cyfnod hwnnw a nododd, petai'r adroddiad yn cael ei fabwysiadu, y byddai'n cael ei roi gerbron cyfarfod y Cyngor yn gynnar yn 2021 i'w gymeradwyo.

Adroddwyd nad oedd yr Ombwdsmon, yn 2019-20, wedi cyfeirio unrhyw gŵynion at y Pwyllgor, ac nad oedd unrhyw faterion wedi'u cyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru mewn perthynas â Chynghorwyr o Sir Gaerfyrddin. Yn ystod y cyfnod hwn nodwyd bod yr Ombwdsmon wedi ystyried a chau cyfanswm o 8 o gŵynion côd ymddygiad yn erbyn Cynghorwyr o Sir Gaerfyrddin. Roedd pedwar yn ymwneud â Chynghorwyr Sir a phedwar yn ymwneud â Chynghorwyr Cymuned.

Mynegodd y Pwyllgor bryderon bod lleiafrif bach o Gynghorau wedi methu'n gyson â darparu data côd ymddygiad ac ymgysylltu â'r Pwyllgor. Nododd y Pwyllgor y byddai'n ceisio canolbwyntio ei sylw ar y Cynghorau hynny yn y dyfodol ac awgrymwyd y dylid diweddaru'r llythyrau a anfonir at Gynghorau i ddweud y byddai'r rhai nad ydynt yn gwneud hyn yn cael eu henwi mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Nodwyd ei bod wedi bod yn flwyddyn heriol ac nad oedd pob Cyngor wedi dod i delerau â chyfarfodydd rhithwir; fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod y pecyn hyfforddi a ddosbarthwyd wedi cael ei ddefnyddio'n helaeth. Awgrymwyd y gellid cynnal arolwg bach i sefydlu pa mor eang y defnyddiwyd y pecyn a sut y gellid ei wella.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR y dylid mabwysiadu Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2019/20.**

## 5. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD J GILASBEY

[SYLWER: Gan ei bod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd Gilasbey y cyfarfod cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.]

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan y Cynghorydd Jeanette Gilasbey o Gyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Cymuned Cydweli am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) fel y gallai siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â'r buddiannau personol a rhagfarnol canlynol:

- Eglwys y Santes Fair, Cydweli – Mae'r Cynghorydd Gilasbey yn aelod ac yn ymddiriedolwr ar Gyngor Plwyf Eglwys y Santes Fair yng Nghydweli.
- Clwb Rygbi Cydweli – Mae'r Cynghorydd Gilasbey yn aelod, yn ysgrifennydd ac yn gyfarwyddwr ar Glwb Rygbi Cydweli
- Amgueddfa Cydweli – mae'r Cynghorydd Gilasbey yn ymddiriedolwr ar Ymddiriedolaeth ac Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli

Dywedwyd bod y cais am ollyngiad wedi'i wneud oherwydd bod gan y Cynghorydd Gilasbey fuddiant personol yn y materion hyn yn rhinwedd paragraff 10(2)(ee) o'r Côd Ymddygiad.

Roedd buddiant y Cynghorydd Gilasbey hefyd yn rhagfarnol, gan y byddai aelod o'r cyhoedd, o wybod yr holl ffeithiau, yn ystyried yn rhesymol fod y buddiant hwnnw mor sylweddol fel ei fod yn debygol o amharu ar farn y Cynghorydd ynghylch budd y cyhoedd.

Gan hynny, roedd y Cynghorydd Gilasbey wedi gofyn am ollyngiad o dan Reoliad 2 (d) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001.

Rhoddwyd gollyngiad i'r Cynghorydd Gilasbey yn flaenorol mewn perthynas â'r buddiannau hyn ar 28 Ionawr 2019 a ddefnyddiwyd ganddi ddwywaith mewn perthynas â Chlwb Rygbi Cydweli ac unwaith ar gyfer Amgueddfa Cydweli.

Yn dilyn trafodaeth,
**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu gollyngiad o dan Reoliad 2 (d) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Jeanette Gilasbey SIARAD A GWNEUD SYLWADAU YSGRIFENEDIG YN UNIG yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Tref Cydweli mewn perthynas â materion yn ymwneud ag:**

- **Eglwys y Santes Fair, Cydweli**
- **Clwb Rygbi Cydweli**
- **Amgueddfa Cydweli**

**a bod y gollyngiadau hyn yn ddilys tan ddiwedd ei chyfnod presennol yn y swydd.**

## 6. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD J GILASBEY

[SYLWER: Gan ei bod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd Gilasbey y cyfarfod cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.]

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan y Cynghorydd Jeanette Gilasbey o Gyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Tref Cydweli am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) fel y gallai siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â'r cynnig i gau ac uno ysgolion cynradd Ysgol Gwenllian ac Ysgol Mynyddygarreg.

Dywedwyd bod y cais am ollyngiad wedi'i wneud oherwydd bod gan y Cynghorydd Gilasbey fuddiant personol yn y materion hyn yn rhinwedd paragraff 10(2)(ee) o'r Côd Ymddygiad.

Roedd buddiant y Cynghorydd Gilasbey hefyd yn rhagfarnol, gan y byddai aelod o'r cyhoedd, o wybod yr holl ffeithiau, yn ystyried yn rhesymol fod y buddiant hwnnw mor sylweddol fel ei fod yn debygol o amharu ar farn y Cynghorydd ynghylch budd y cyhoedd.

Gan hynny, roedd y Cynghorydd Gilasbey wedi gofyn am ollyngiad o dan Reoliad 2 (d) a (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001.

Yn dilyn trafodaeth,
**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu gollyngiad o dan Reoliad 2 (d) a (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Jeanette Gilasbey SIARAD A GWNEUD SYLWADAU YSGRIFENEDIG YN UNIG yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Tref Cydweli mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r cynnig i gau ac uno ysgolion cynradd Ysgol Gwenllian ac Ysgol Mynyddygarreg, a**

**bod y gollyngiad hwn yn ddilys tan ddiwedd ei chyfnod presennol yn y swydd.**

## 7. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD K LLOYD

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Ken Lloyd am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig yn unig yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Tref Caerfyrddin mewn perthynas â'r buddiannau personol a rhagfarnol canlynol:

- CAMRA – Mae'r Cynghorydd Lloyd yn aelod o'r sefydliad hwn
- MIND – Mae'r Cynghorydd Lloyd yn aelod o'r sefydliad hwn
- Cwlwm Monduli – Mae'r Cynghorydd Lloyd yn ymddiriedolwr ar yr elusen
- Ymgyrch Cefnogi Nicaragua – Mae'r Cynghorydd Lloyd yn aelod o'r ymgyrch
- Amnest rhyngwladol – Mae'r Cynghorydd Lloyd yn aelod o'r sefydliad hwn
- Gwasanaethau rheilffordd yng nghanolbarth a gorllewin Cymru – Mae'r Cynghorydd Lloyd yn aelod o Gymdeithas Teithwyr Rheilffordd Calon Cymru (HOWLTA)
- Amgueddfa Caerfyrddin – Mae'r Cynghorydd Lloyd a'i wraig yn aelodau o 'gyfeillion amgueddfa Caerfyrddin'
- Archifau Caerfyrddin – Mae'r Cynghorydd Lloyd a'i wraig yn aelodau o Gyfeillion Archifau Caerfyrddin
- Cysylltu Bywydau /Gofal Cymdeithasol i Oedolion – Mae'r Cynghorydd Lloyd yn gydymaith personol agos i 2 berson sy'n ofalwyr cymeradwy o dan y Cynllun Cysylltu Bywydau.

Dywedwyd bod y cais am ollyngiad wedi'i wneud oherwydd bod gan y Cynghorydd Lloyd fuddiant personol yn y materion hyn yn rhinwedd paragraff 10(2)(ee) o'r Côd Ymddygiad.

Roedd buddiant y Cynghorydd Lloyd hefyd yn rhagfarnol, gan y byddai aelod o'r cyhoedd, o wybod yr holl ffeithiau, yn ystyried yn rhesymol fod y buddiant hwnnw mor sylweddol fel ei fod yn debygol o amharu ar farn y Cynghorydd ynghylch budd y cyhoedd.

Gan hynny, roedd y Cynghorydd Lloyd wedi gofyn am ollyngiad o dan Reoliad 2 (d) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001. Rhoddwyd gollyngiad i'r Cynghorydd Lloyd yn flaenorol mewn perthynas â'r buddiannau hyn ar 28 Ionawr 2019 a ddefnyddiwyd ganddo unwaith er mwyn siarad am Cysylltu Bywydau/Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Yn dilyn trafodaeth,
**PENDERFYNWYD caniatáu gollyngiad o dan Reoliad 2 (d) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Ken Lloyd SIARAD A GWNEUD SYLWADAU YSGRIFENEDIG YN UNIG yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Tref Caerfyrddin mewn perthynas â materion yn ymwneud â:**

- **CAMRA**
- **MIND**
- **Cwlwm Monduli**

- **Ymgyrch Cefnogi Nicaragua**
- **Amnest rhyngwladol**
- **Gwasanaethau rheilffordd yng nghanolbarth a gorllewin Cymru**
- **Amgueddfa Caerfyrddin**
- **Archifau Caerfyrddin**
- **Cysylltu Bywydau/Gofal Cymdeithasol i Oedolion**

**a bod y gollyngiadau hyn yn ddilys tan ddiwedd ei gyfnod presennol yn y swydd.**

## 8. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor na fyddai'n bresennol yn y Cyngor Llawn i gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ym mis Ionawr 2021.

___________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council